Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Unpublished

YSTADEGAU

# Data a ddefnyddir gan Awdurdod Cyllid Cymru wrth adrodd ar berfformiad o 2022 hyd 2023

Mesurau perfformiad Awdurdod Cyllid Cymru. Yn darparu tryloywder ar gyfer y data sylfaenol yn yr adroddiad ar berfformiad yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Data



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ei **adroddiad blynyddol** 2022-23 ar 14 Medi 2023, gan gynnwys adran yn adrodd ar berfformiad y sefydliad dros y flwyddyn (yr **"adroddiad ar berfformiad"**). Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi darlun ystadegol o'r data a ddefnyddir yn y ddogfen honno, a sicrhau bod y setiau data sylfaenol ar gael yn llawn ar gyfer cyfeirio neu ddadansoddi pellach.

Defnyddir sawl siart yn yr adroddiad hwn, yn cyflwyno data newydd ar gyfer pob un o'r gwahanol ddangosyddion perfformiad ar gyfer ACC am y cyfnod 2022-23. Mae rhai o'r rhain wedi'u cynnwys rywle yn yr adroddiad blynyddol, a chyfeirir atynt yn unol â hynny, er nad ydynt o reidrwydd yn yr un drefn. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys peth data na chyflwynir yn yr adroddiad blynyddol er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o'r holl ddata a ddefnyddir gan ACC wrth ddadansoddi ei berfformiad mewnol.

At ddibenion astudio’r data, weithiau mae'n haws dychmygu gwerthoedd gwrthwyneb y dangosyddion perfformiad. Er enghraifft, mae canran y ffurflenni treth a ffeiliwyd ar amser yn agos at 100% ac mae unrhyw amrywiad pan y’i gwelir ar raddfa o 0-100% yn anodd iawn i’w weld mewn delwedd statig. Yn hytrach na newid y raddfa i 97-100% dyweder, a fydd yn gorbwysleisio'r amrywiad, rydym yn hytrach yn cyflwyno'r ganran o ffurflenni nad ydynt wedi'u ffeilio ar amser, gan ddefnyddio graddfa o 0-3%. Mae hyn yn rhoi adlewyrchiad tecach o'r duedd mewn delwedd statig, a lle defnyddir y dechneg hon, mae'r data ar gyfer y mesur gwrthwyneb a'r mesur gwirioneddol ar gael yn y daenlen atodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad byr o bob mesur, a gallai'r darllenydd fod am ei ystyried ar y cyd â'r naratif manylach yn yr adroddiad ar berfformiad, sydd wedi'i osod yng nghyd-destun dull ac amcanion y sefydliad. Lle y bo'n berthnasol, ychwanegir llyfrnodau i rannau perthnasol yr adroddiad blynyddol o dan bob siart.

Sylwer bod y rhan fwyaf o'r dadansoddiad isod yn berthnasol i'r Dreth Trafodiadau Tir (TTT), er pan fo hefyd yn berthnasol cynnwys data'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT), mae'r data hynny hefyd wedi'u cynnwys yn y mesur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Data

### Siart 1: Nifer y ffurflenni TTT a gyflwynwyd i ACC, fesul mis y'u derbyniwyd




Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r siart hwn yn nodi'r cyd-destun y dylid ystyried y mesurau perfformiad yn ei erbyn. Mae'n dangos sut mae nifer y trafodiadau TTT a dderbyniwyd ym mhob mis wedi newid yn ystod mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2023.

Mae'r siart yn dangos bod y trafodiadau trwy gydol blwyddyn ariannol 2022-23 ychydig yn is nag yn 2021-22. Cyrhaeddodd nifer y trafodiadau uchafbwynt ym mis Mehefin 2021, wrth i'r gostyngiad dros dro yn y Dreth Trafodiadau Tir a gyflwynwyd gyntaf ym mis Gorffennaf 2020, ddod i ben, gyda rhai trafodiadau'n cael eu dwyn ymlaen er mwyn manteisio ar y dreth ostyngol. Yna gostyngodd y niferoedd i tua 6,000 y mis dros ran olaf 2021, cyn setlo ar tua 5,500 yn ystod 2022. Gwelwyd gostyngiadau tymhorol ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021 a 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 2: Canran y trafodiadau nad ydynt yn cael eu prosesu'n awtomatig hyd at y taliad cychwynnol, fesul mis y’u dderbyniwyd




Mae hyn yn cynnwys cyflwyniad a thaliad cychwynnol (os yn berthnasol) yn unig ac nid unrhyw weithred y gall yr Awdurdod ymgymryd â hi yn y dyfodol er mwyn rheoli risg


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig.

Mae gan ACC darged perfformiad o 98% o'r trafodiadau yn cael eu prosesu’n awtomatig heb unrhyw gyffyrddiad â llaw. Mae hyn yn cynnwys derbyn trafodiadau digidol a chyfateb yn awtomatig y taliadau a dderbynnir ar gyfer unrhyw drafodiadau lle mae atebolrwydd ariannol ac mae’n cynnwys TTT a TGT.

Mae'r siart hwn yn defnyddio'r dechneg gwrthwyneb a eglurir yn y cyflwyniad ac yn dangos bod canran y trafodiadau na chawsant eu prosesu'n awtomatig yn gyffredinol wedi gostwng dros flwyddyn ariannol 2022-23, gan barhau â'r duedd a oedd hefyd yn amlwg yn y flwyddyn flaenorol. Mae gan y mesur hwn rywfaint o ffordd i fynd o hyd i gyrraedd targed cymharol uchelgeisiol, sy'n debygol o fod angen gwelliannau yn y cyfateb taliadau’n awtomatig sy'n cael eu hystyried gan ACC ar hyn o bryd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 3: Canran y ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a dderbyniwyd y tu hwnt i 30 diwrnod, fesul mis y daeth y trafodiadau i rym




Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig.

Mae gan ACC darged perfformiad o 98% mewn perthynas â derbyn ffurflenni

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

TTT ar amser, hynny yw o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad dod i rym.

Mae'r siart hwn yn defnyddio'r dechneg gwrthwyneb a eglurir yn y cyflwyniad ac yn dangos bod canran y ffurflenni dreth a dderbyniwyd y tu hwnt i 30 diwrnod o'r dyddiad dod i rym wedi bod o fewn yr ystod darged ers mis Ionawr 2022, gyda thuedd gyffredinol ar i lawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, gwellodd y mesur hwn yn ystod 6 mis diwethaf 2022-23, sy’n cyd-fynd â gostyngiad yn nifer gyffredinol y trafodiadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 4: Canran y ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a dalwyd y tu hwnt i 30 diwrnod, fesul mis y daeth y trafodiadau i rym

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig.

Mae gan ACC darged perfformiad o 98% mewn perthynas â derbyn taliadau yn erbyn ffurflenni TTT mewn pryd, hynny yw o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad dod i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rym.

Mae'r siart hwn yn defnyddio'r dechneg gwrthwyneb a eglurir yn y cyflwyniad ac yn dangos bod canran y ffurflenni a dalwyd y tu hwnt i 30 diwrnod o'r dyddiad dod i rym wedi gostwng yn gyffredinol dros y 2 flynedd ddiwethaf, i gyffwrdd â'n llinell darged ym mis Chwefror 2023. Mae'r gostyngiad hwn wedi cyd-daro ag ymdrechion ar draws y sefydliad a pharhaus i gefnogi trethdalwyr i atal a rheoli dyled.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 5: Canran y dyledion Treth Trafodiadau Tir a gasglwyd y tu hwnt i 30 diwrnod a 90 diwrnod, fesul mis y daeth y trafodiadau i rym

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig.

Ar gyfer pob trafodiad TTT sydd ag atebolrwydd ariannol nad yw'n cael ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyflwyno a'i dalu o fewn 30 diwrnod, mae dyled yn cael ei chreu. Nod ACC yw casglu taliadau ar drafodiadau sy'n dod yn ddyled o fewn 30 diwrnod arall ac mae ganddo darged o gasglu 90% o'r dyledion hynny o fewn yr amserlen honno, yn ogystal â tharged o gasglu 98% o'r dyledion hynny o fewn amserlen 90 diwrnod. Mae trafodiadau a gaiff eu cyflwyno y tu hwnt i'r amserlenni hyn yn creu gogwydd yn y mesur hwn ac maent wedi'u heithrio o'r cyfrifiad. Yn hytrach, mae ACC yn dadansoddi'r achosion hyn ar wahân er mwyn sicrhau bod amserlenni cymharol yn cael eu cyflawni ar ôl eu derbyn.

Mae'r siart hwn yn defnyddio'r dechneg gwrthwyneb a eglurir yn y cyflwyniad ac yn dangos bod dyledion a gasglwyd o fewn 30 diwrnod neu'n agos at yr ystod darged ar gyfer y rhan fwyaf o 2021-22 a 2022-23, gydag ambell i frig ym mis Gorffennaf 2021 a mis Tachwedd 2022 dan ddylanwad seibiannau dros dro ar gasglu a danfon post. Roedd brig mis Tachwedd 2022 yn cyd-daro â saib o ran rheoli’r post dros y Nadolig, gyda'r perfformiad yn dychwelyd yn gyflym i lefelau mwy normal fis yn ddiweddarach.

Ar gyfer y ddau fesur hyn, yn enwedig dyledion a gasglwyd y tu hwnt i 90 diwrnod, gall nifer y trafodiadau fod yn isel ac yn naturiol maent yn amrywiol iawn. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi'i ddwysau gan y gostyngiad yn y lefelau cyffredinol y dyledion a welwyd yn y siart blaenorol, ac mae'n bwysig ystyried y tueddiadau tymor hwy, sy’n weddol wastad yn y ddau achos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 6a: Nifer y diwrnodau a'r cyfartaledd i dalu ad-daliadau cyfradd uwch y Dreth Trafodiadau Tir, fesul mis y ceisiadau





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig.

## Siart 6b: Canran yr ad-daliadau Treth Trafodiadau Tir cyfradd uwch a dalwyd y tu hwnt i 30 diwrnod a 60 diwrnod, fesul mis y ceisiadau




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig.

Yn gyffredinol, pan fydd trethdalwr yn prynu prif breswylfa newydd heb werthu ei brif breswylfa flaenorol ar yr un pryd, maent yn ddarostyngedig i'r gyfradd uwch o TTT preswyl. Mae'r rhai sy'n gwerthu eu prif breswylfa flaenorol o fewn tair blynedd fel arfer yn gymwys i gael ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau uwch a'r prif gyfraddau TTT ar y trafodiad gwreiddiol.

Nod ACC yw talu'r ad-daliadau hyn, a elwir yn ad-daliadau cyfradd uwch, mewn modd mor amserol â phosibl, ac mewn unrhyw achos o fewn 30 diwrnod i dderbyn y cais. Bellach mae gennym werth tair blynedd o ddata ar y sail hon.

Mae'r ddau siart uchod yn dangos sut mae'r amser a gymerir i ad-dalu cyfraddau uwch wedi newid dros amser, a chyfran yr holl ad-daliadau sy'n cael eu talu o fewn 30 i 60 diwrnod.

Mae Siart 6a yn dangos bod yr amser cyfartalog a gymerwyd i brosesu ad-daliadau cyfraddau uwch wedi gostwng o uchafbwynt yn gynnar yn 2021-22, cyn sefydlogi rhwng 6 a 14 diwrnod. Roedd y sefydlogi hwn yn cyd-daro â gwelliannau i brosesau ac ad-drefnu adnoddau staff. Dangosir cyfran yr ad-daliadau y delir â nhw o fewn 30 diwrnod a 60 diwrnod yn siart 6b, sy'n defnyddio'r dechneg gwrthwyneb a eglurir yn y cyflwyniad. Fel y gellid disgwyl, mae'r amser cyfartalog isel a gymerir i brosesu ad-daliadau yn arwain at amrywiad is yn y mesur hwn dros y 2 flynedd ddiwethaf, gyda dim ond ambell i frig. Yn gyffredinol, achosir y brigau hyn gan niferoedd bychain o achosion lle mae'r oedi yn aml oherwydd bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei cheisio, ac ymateb araf y trethdalwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 7a: Diwrnodau cyfartalog i dalu ad-daliadau cyffredinol Treth Trafodiadau Tir, fesul mis y ceisiadau




Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig ond


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyfeirir at y data yn yr adran **Amseroldeb ad-daliadau ACC**.

## Siart 7b: Canran yr ad-daliadau cyffredinol Treth Trafodiadau Tir a dalwyd y tu hwnt i 30 diwrnod a 60 diwrnod, fesul mis y ceisiadau




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ni ddangosir y siart hwn yn benodol yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig ond cyfeirir at y data yn yr adran **Amseroldeb ad-daliadau ACC**.

Roedd Cynllun Corfforaethol 2022-2025 ACC yn cynnwys ymrwymiad i ehangu ein hadrodd ar ad-daliadau i gynnwys ad-daliadau cyffredinol, ochr yn ochr ag ad-daliadau cyfradd uwch. Gallai'r ad-daliadau hyn fod yn berthnasol i daliadau dyblyg, hawliadau dilynol am ryddhad, neu ordaliad yn dilyn newidiadau yn y bandiau treth. Er mai ad-daliadau cyfradd uwch yw'r rhan fwyaf o'n had-daliadau, mae'r ad-daliadau mwy cyffredinol hyn i gyfrif am yr 20% sy'n weddill.

Mae'r adroddiad blynyddol yn esbonio pam nad ydym yn gosod targed ar gyfer yr ad-daliadau cyffredinol hyn, yn bennaf oherwydd heriau o ran cyfateb y ceisiadau am ad-daliad i'r ad-daliadau eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn monitro'r data ac yn ei gyflwyno yma ar gyfer tryloywder.

Mae'r ddau siart uchod yn dangos sut mae'r amser a gymerir i wneud yr ad-daliadau cyffredinol hyn wedi newid dros amser (siart 7a), a hefyd y gyfran o'r holl ad-daliadau a delir o fewn 30 diwrnod ac o fewn 60 diwrnod (siart 7b, sy'n defnyddio'r dechneg gwrthwyneb a eglurir yn y cyflwyniad).

Yn dilyn uchafbwynt yn gynnar yn 2021-22, pan oeddem yn delio â nifer hanesyddol uchel o ad-daliadau cyfradd uwch, mae canran yr ad-daliadau cyffredinol a ad-dalwyd y tu hwnt i 30 diwrnod wedi aros yn is nag 20%, gyda rhywfaint o amrywiad. Mae gwell perfformiad yn y 6 mis ers mis Hydref 2022 yn cyd-daro ag ACC yn prosesu ad-daliadau yn ymwneud â newid mewn bandiau treth, sydd fel arfer yn achosion mwy syml.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 8: Canran y trafodiadau na chawsant eu talu'n gywir y tro cyntaf, fesul mis y daeth y trafodiadau i rym




Dangosir y siart hwn fel siart 1 yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir at y data yn yr adran **Gwasanaethau cyfrifo – cywir y tro cyntaf**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nod ACC yw casglu mwy o wybodaeth ynglŷn â pha mor hawdd yw defnyddio ein gwasanaethau, ac mae ein Cynllun Corfforaethol 2022-2025 yn cynnwys mesur newydd er mwyn ceisio gwneud hynny. Dyma ganran y trafodiadau sy’n cael eu talu’n gywir y tro cyntaf, sy'n golygu’r rhai a delir yn llawn mewn un taliad. Rydym yn eithrio trafodiadau lle gwnaed diwygiad i'r dreth sy'n ddyledus gan ei fod yn effeithio ar nifer a lefel y taliadau am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â rhwyddineb defnyddio’n gwasanaethau.

Mae Siart 8, sy'n defnyddio'r dechneg gwrthwyneb a eglurir yn y cyflwyniad yn dangos sut mae'r achosion lle na thalwyd y trafodiadau’n gywir y tro cyntaf wedi gostwng yn gyffredinol, sy’n arwydd o gynnydd cadarnhaol yn y maes hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 9: Nifer y trafodiadau a chyfanswm y dreth yn risgiau TTT 1 i 5

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Dangosir y siart hwn fel siart 2 yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir at y data yn yr adran **Ein dull o reoli risg treth**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gall ACC wneud dadansoddiad manwl o'r data a gynhwysir ym mhob trafodiad a dderbynnir er mwyn gwirio a yw'n cynnwys nodweddion amrywiol a allai awgrymu bod gwallau cyffredin neu risgiau yn y wybodaeth a ddarperir. Yna caiff pob un o'r 'risgiau treth' hynny eu dadansoddi ar wahân er mwyn nodi nifer y trafodiadau a'r dreth sydd mewn perygl, fel y gellir olrhain hyn dros amser. Mae'r bennod ar **berfformiad yn yr adroddiad blynyddol** yn esbonio mwy am ddull yr Awdurdod o reoli risgiau treth.

Rhoddwyd sylw i sawl maes risg treth ac rydym wedi adrodd ar y 5 prif risg treth yma Dangosir setiau data unigol ar gyfer pob un o'r ohonynt yn siartiau 10-14 isod, tra bod y siart hwn yn dangos cyfanrediad y data ar gyfer y 5 maes risg treth hynny hyd at a chan gynnwys data ar gyfer 2022-23. Mae data ar gael am 4 blynedd ar gyfer nifer y trafodiadau (a ddangosir gan y llinell, echelin chwith) a'r dreth sydd mewn perygl (a ddangosir gan y bariau, echelin dde).

Rhennir y mesurau hyn ymhellach yn drafodiadau sy'n risgiau tebygol, lle mae gwaith wedi'i wneud i ddeall y risg bosibl, a risgiau aneglur, lle nad oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd i benderfynu a oes risk ynghlwm â'r trafodiadau neu beidio. Gwnaed ymdrech gyson yn ystod 6 mis diwethaf 2022-23 i leihau nifer y risgiau aneglur, fel y gwelir yn y siart.

Yn dilyn cynnydd cyffredinol yn nifer y trafodiadau sydd yn y 5 risg treth hon fel y dangosir gan y llinell (echelin chwith) yn ystod 2020-21, bu i nifer y trafodiadau lefelu am y rhan fwyaf o 2021-22, ond gyda chynnydd o'r newydd yn chwarter olaf 2021-22. Yna dechreuodd y niferoedd hyn ostwng yn araf yn 2022-23, cyn gostwng yn sylweddol yn chwarter olaf 2022-23. Newidiodd gwerth cysylltiedig y dreth oedd mewn perygl yn y trafodiadau hynny a ddangosir gan y bariau (echelin dde) yn gyflymach na nifer y trafodiadau, yn bennaf oherwydd y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

codiadau diweddar yng ngwerth trafodiadau. Rhoddir mwy o eglurhad o’r data hwn yng nghyd-destun dull ac amcanion ACC yn yr adroddiad blynyddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 10: Risg TTT 1 – cwmnïau'n prynu eiddo preswyl

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 10a: Risg TTT 1a - gweithgaredd gweddilliol yn ymwneud â chwmnïau'n prynu eiddo preswyl

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Gweler y sylwebaeth o dan siart 9.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn dilyn gostyngiad parhaus yn 2019-20, lliniarwyd y risg gyffredinol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o weithgarwch gweddilliol a ddechreuwyd yn 2020-21, y gellir ei briodoli i fath penodol o drafodiad, bellach yn cael ei ddangos ar wahân yn siart 10a. Gellir gweld bod y risg hon yn fach iawn yn gyffredinol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda nifer gyson o drafodiadau yn 2022-23, sy’n debyg i’r flwyddyn flaenorol, ond sy’n llai yn gyffredinol na rhai o'r risgiau eraill a gyflwynir yma.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 11: Risg TTT 2 - ffurflenni treth heb eu dychwelyd




(*) allanolyn mawr wedi'i ddisodli â gwerth cyfartalog y dreth sydd mewn perygl

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gweler y sylwebaeth o dan siart 9.

Bu gostyngiad cyffredinol mewn trafodiadau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o frig cynnar, i chwarter cyntaf 2020-21. Ers hynny, tyfodd y risg hyd chwarter cyntaf 2021-22, cyn gostwng ac yna sefydlogi dros y 2 flynedd nesaf. Effeithiwyd ar werth y dreth oedd mewn perygl gan ychydig o drafodiadau anghynrychioliadol mwy o faint dros y cyfnod a ddangosir ond mae'n olrhain nifer y trafodiadau ar gyfer y risg hon i gryn raddau. Yn gyffredinol, mae lefel y risg yn llai na rhai o'r risgiau eraill a gyflwynir yma.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 12: Risg TTT 3 - anghytuno â'r gyfrifiannell TTT

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Gweler y sylwebaeth o dan siart 9.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ers isafbwynt yn chwarter cyntaf 2020-21, cynyddodd yr achosion yn unol â nifer cynyddol y trafodiadau. Yn ystod 2021-22, arhosodd achosion yn weddol sefydlog ar wahân i ostyngiad bach yn chwarter 3, tra bod gwerth y dreth mewn perygl wedi cynyddu ychydig ar ddechrau 2021-22, cyn gostwng unwaith eto. Yn 2022-23, gostyngodd nifer y trafodiadau a'r dreth oedd yn ddyledus ar y trafodiadau hynny yn y ddau chwarter cyntaf, cyn aros yn sefydlog ac yn isel dros y ddau chwarter nesaf. Yn gyffredinol, mae lefel y risg yn llai na rhai o'r risgiau eraill a gyflwynir yma.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 13: Risg TTT 4 - triniaeth treth gwahanol fathau o eiddo

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Dangosir y siart hwn fel siart 3 yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

at y data yn yr adran **Ein dull o reoli risg treth**.

Gweler y sylwebaeth o dan siart 9.

Dyma'r mwyaf o'r risgiau a drafodir o ran nifer y trafodiadau a gwerth cysylltiedig y dreth sydd mewn perygl sy'n gysylltiedig â'r trafodiadau hynny.

Ers y lefel isel yn gynnar yn 2020-21, bu cynnydd amlwg yn y niferoedd yn ail hanner 2020-21 a 2021-22, sy'n fwy na'r niferoedd y gellid eu disgwyl wrth i nifer cyffredinol y trafodiadau gynyddu, sy'n awgrymu cynnydd yn y risg ei hun. Dilynodd gwerth y dreth oedd mewn perygl batrwm tebyg, er bod gwerthoedd cynyddol y trafodiadau'n effeithio ar y data hefyd, gyda'r ffigur yn chwarter 4 2021-22 yr uchaf a welwyd hyd yma o gryn dipyn.

Ar ôl yr brig hwn, sefydlogodd nifer y trafodiadau a'r dreth oedd yn ddyledus yn y risg hon ar gyfer 3 chwarter cyntaf 2022-23, cyn gostwng yn sylweddol yn y 4ydd chwarter. Roedd hyn yn cyd-daro â gostyngiad sylweddol yn nifer cyffredinol y trafodiadau, ond hyd yn oed ar ôl ystyried hynny mae lefel y risg wedi gostwng. Mae'r gostyngiad hwn mewn risg wedi cyd-daro â newidiadau a wnaed i'n system dreth er mwyn gofyn am ragor o wybodaeth am y trafodiadau ac ymdrechion ychwanegol i addysgu asiantau trethdalwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 14: Risg TTT 5 - yn ymwneud â rhyddhad penodol (rhyddhad a)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Dangosir y siart hwn fel siart 4 yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

at y data yn yr adran **Ein dull o reoli risg treth**.

Gweler y sylwebaeth o dan siart 9.

Cododd nifer y trafodiadau mewn perygl ers dechrau 2021-22, yn unol yn fras â'r cynnydd mewn trafodiadau cyffredinol, er bod y cynnydd yn hanner olaf 2021-22 yn fwy serth na'r disgwyl, sy’n awgrymu cynnydd yn y risg ei hun. Yna gostyngodd y nifer yn chwarter cyntaf 2022-23, sefydlogi am gyfnod, cyn gostwng eto yn chwarter olaf 2022-23. Fel gyda'r risg flaenorol, roedd hyn yn rhannol oherwydd gostyngiad cyffredinol yn y trafodiadau, ond hefyd oherwydd gostyngiad yn y risg ei hun, oedd yn cyd-daro ag ymdrechion addysg ychwanegol gydag asiantau trethdalwyr a chasglu mwy o wybodaeth am y trafodiadau.

Mae gwerth y dreth mewn perygl yn dilyn patrwm tebyg, er bod gwerthoedd cynyddol trafodiadau’n effeithio ar y data hefyd, gyda'r ffigurau yn chwarteri 3 a 4 2021-22 a chwarter 3 2022-23 yr uchaf o gryn dipyn a welwyd hyd yma.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 15: Nifer a gwerth achosion lle cafodd TTT ei ddiogelu




Dangosir y siart hwn fel siart 6 yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir at y data yn yr adran **Ein dull o reoli risg treth**.

Dros flwyddyn ariannol 2022-23 buddsoddodd ACC fwy o ymdrech i ddiogelu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

treth. Mae hyn lle mae trethdalwyr wedi cyflwyno diwygiad am i lawr i’r dreth sy'n ddyledus ar ffurflen dreth, ond lle rydym ni’n credu eu bod yn anghywir i wneud hynny. Mewn achosion o'r fath, gallwn agor ymholiad ac fel arfer rydym yn llwyddo i ddiogelu treth a fyddai fel arall wedi cael ei had-dalu'n amhriodol.

Mae gwerth treth yr achosion hyn yn aml yn amrywiol iawn ac yn cael eu heffeithio gan drafodiadau unigol mawr. Fodd bynnag, mae siart 15 yn dangos cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch yn y gofod hwn yn 2022-23, gyda bron pob achos yn arwain at ddiogelu'r TTT a gafodd ei ystyried yn ddyledus yn wreiddiol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 16: Nifer a gwerth yr achosion lle cafodd TTT ei adennill neu ei ddychwelyd




Dangosir y siart hwn fel siart 5 yn yr Adroddiad Blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir at y data yn yr adran **Ein dull o reoli risg treth**.

Ar gyfer achosion sy'n cwympo i'r risgiau a nodwyd yn y siartiau uchod, bydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ACC yn aml yn agor ymholiad i'r ffurflen TTT, a all arwain at ddiwygiad, am i fyny fel arfer, i'r ffurflen dreth. Yn yr achosion hyn, rydym yn cyfeirio at y term adennill treth er mwyn tynnu sylw at werth y diwygiadau am i fyny hynny. Rydym hefyd yn defnyddio'r term treth a ddychwelwyd pan fydd naill ai ymholiad neu ymchwiliad llai ffurfiol yn awgrymu gordaliad treth, sydd wedyn yn cael ei ad-dalu.

Mae adennill trethi wedi bod yn amrywiol hyd yma sy'n tynnu sylw at natur amrywiol yr achosion rydym wedi gweithio arnynt ers 2019. Yn y flwyddyn gyntaf honno, buom yn canolbwyntio'n bennaf ar achosion mwy amlwg o risg treth, a oedd yn gymharol hawdd i'w datrys. Ar ôl cau'r risgiau hynny ers hynny trwy ddiwygio ein system, rydym wedi canolbwyntio ar wahanol risgiau sydd wedi sefydlogi'n gyffredinol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a thua £1.2m wedi'i adennill yn 2022-23.

Bu cynnydd bychan yn y dreth a ddychwelwyd yn 2022-23, yn bennaf o ganlyniad i fynd i'r afael ag achosion lle'r oedd trethdalwyr wedi gordalu treth yn dilyn y newid yn y cyfraddau treth ym mis Hydref 2022. Cyn hynny roedd y dreth a ddychwelwyd wedi bod yn eithaf sefydlog.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-o-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.